LIVING STREETS

DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

# Traciwr Teithio WOW



## Canllaw gweinyddol



**Gyda WOW – yr her cerdded i'r ysgol,** mae disgyblion yn defnyddio dull hunanadrodd i nodi eu teithiau dyddiol ar Draciwr Teithio WOW. Ar ddiwedd pob mis, mae'r disgyblion hynny sydd wedi teithio'n llesol i'r ysgol o leiaf unwaith yr wythnos yn cael bathodyn WOW.

**DEFNYDDIWCH Y CANLLAW CAM-WRTH-GAM HAWDD HWN I SEFYDLU CYFRIF TRACIWR TEITHIO WOW EICH YSGOL.**



CAM 1

## Cofrestru

**Ewch i: TRAVELTRACKER.ORG.UK**

Dewiswch y tab **COFRESTRU** a defnyddiwch gôd post eich ysgol i gychwyn. arni. Bydd angen i chi osod eich manylion mewngofnodi eich hun ar gyfer **MEWNGOFNODI I GYFRIF** Traciwr Teithio WOW, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw nodyn o'r hyn a ddewiswch.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau yn cynnwys eich côd mynediad ystafell ddosbarth tri gair. Rhannwch y côd hwn gyda phob athro dosbarth; byddant yn ei ddefnyddio i gael mynediad at Draciwr Teithio WOW bob dydd. Mae'r côd mynediad ystafell ddosbarth tri gair hefyd i'w weld ar y tab **GOSODIADAU YSGOL** ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif.

CAM 2


## Mewngofnodwch a chofrestrwch eich ysgol

**Ewch i'r tab MEWNGOFNODI I'R CYFRIF ar Draciwr Teithio WOW a nodwch yr enw defnyddiwr a'r cyfrinair a ddewiswyd pan wnaethoch gofrestru.**

Dyma lle byddwch yn sefydlu ac yn rheoli dosbarthiadau, disgyblion a'r broses o ddosbarthu bathodynnau. Fe welwch fideos tiwtorial defnyddiol ar bob tudalen.







CAM 3

# Gosodiadau ysgol

## Defnyddiwch y tab hwn i weld neu newid y côd mynediad ystafell ddosbarth tri gair.

Yma gallwch osod y trothwy bathodynnau ar gyfer eich ysgol. Y trothwy bathodynnau yw nifer y teithiau llesol (cerdded/troelli, sgwtera, beicio, ‘Parcio a Cherdded’ neu ddod oddi ar y trên/bws yn gynt) y mae angen i ddisgybl ei gofnodi bob wythnos er mwyn ennill bathodyn WOW ar ddiwedd pob mis. Mae’n cael ei osod yn awtomatig i un yr wythnos ond gallwch gynyddu hyn os ydych chi wir am herio’r disgyblion!

Ar Draciwr Teithio WOW, mae pob disgybl yn cael ei gynrychioli gan eicon. Ar y dudalen hon fe welwch chi flwch ticio sy’n rhoi’r opsiwn i chi ychwanegu tagiau enwau disgyblion, a all wneud y broses cofnodi yn haws i ddisgyblion iau. Ticiwch y blwch hwn os ydych chi am ychwanegu tagiau enwau at yr eiconau.
Er mwyn cynnal preifatrwydd disgyblion, peidiwch â defnyddio enwau llawn.

**NODER:** dim ond eich ysgol chi a Living Streets fydd â mynediad i’r wybodaeth hon.

Cofiwch glicio ar ‘cadw manylion’ ar ôl gwneud eich newidiadau.





CAM 4

# Gwyliau ysgol



**Mae dyddiadau gwyliau ysgol wedi'u huwchlwytho'n awtomatig ar gyfer pob awdurdod lleol.**

Gallwch newid neu ychwanegu dyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS newydd yn y tab **GOSODIADAU YSGOL.** Mae'n hanfodol bod y rhain yn gywir, neu ni fydd dosbarthu'r bathodyn yn gweithio yn ôl y disgwyl.



**COFIWCH:** os nad yw eich ysgol yn dechrau WOW ar ddechrau'r mis, bydd angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn ychwanegu'r dyddiau coll fel gwyliau. Er enghraifft, os byddwch yn dechrau WOW ar 15 Medi, bydd angen i chi ychwanegu 1-14 Medi fel gwyliau.






livingstreets.org.uk/WOW

CAM 5

# Arolwg data sylfaenol



Cyn i chi lansio WOW, gofynnwch i bob athro dosbarth wneud arolwg dwylo i fyny o sut mae eu disgyblion yn cyrraedd yr ysgol ar hyn o bryd, gan ddefnyddio'r **DAFLEN TEMPLED AR GYFER CASGLU DATA SYLFAENOL** sydd yn yr adran 'Golygu Data Sylfaenol yr Ysgol' yn y tab **GOSODIADAU YSGOL.** Mae'r un arolwg hefyd ar gael yn **livingstreets.org.uk/wowlaunch.**

Unwaith y bydd pob dosbarth wedi casglu'r wybodaeth hon, rhowch ddata'r ysgol gyfan i mewn i'r meysydd opsiynau trafnidiaeth yn yr adran 'Golygu Data Sylfaenol yr Ysgol'. Mae cofnodi'r wybodaeth hon ar y dechrau yn helpu i olrhain cynnydd eich ysgol dros amser.







**livingstreets.org.uk/WOW**

CAM 6

# Blynyddoedd a dosbarthiadau



**DEFNYDDIWCH Y TAB HWN I YCHWANEGU AC YNA RHEOLI DOSBARTHIADAU EICH YSGOL.**

1. **Ychwanegwch enw'r dosbarth a nifer y disgyblion ar gyfer pob dosbarth yn y grŵp blwyddyn**
2. **Cliciwch ar 'cadw'**
3. **Cliciwch ar 'rheoli disgyblion' i ychwanegu enwau disgyblion at yr eiconau**
4. **Gallwch chi hefyd ychwanegu neu ddileu disgyblion unigol**

**NODER:** ychwanegwch grwpiau blwyddyn eich ysgol sy'n cymryd rhan yn unig.

Nodwch wybodaeth ar gyfer pob dosbarth drwy'r tab **BLYNYDDOEDD A DOSBARTHIADAU** – dewiswch bob grŵp blwyddyn yn ei dro a mewnbynnwch nifer y disgyblion a'r enw ar gyfer pob dosbarth. Gallwch ddewis nodi cyfeiriadau e-bost athrawon yma i'w cysylltu â'u dosbarth a chaniatáu iddyn nhw olygu eu manylion dosbarth eu hunain. Caiff disgyblion eu cynrychioli gan eiconau. Os hoffech chi labelu'r eiconau hyn gyda thagiau enwau, mae angen i chi optio i mewn i'r nodwedd honno o dan y tab **MANYLION YR YSGOL.**



CAM 7

# Bathodynnau



## DEFNYDDIWCH Y TAB HWN I WELD PA DDISGYBLION SYDD WEDI ENNILL BATHODYN BOB MIS.

Ar ddiwedd y mis, gallwch chi ddefnyddio’r cwymplenni i ddewis y dosbarth a’r mis sydd o ddiddordeb i chi. I argraffu rhestr o’r holl ddosbarthiadau, dewiswch y mis ac yna pwyswch **‘ewch’** i weld y botwm **‘argraffu pob dosbarth’**. Unwaith y bydd disgybl yn ennill ei fathodyn, bydd eicon bathodyn yn ymddangos dros eicon y disgybl ar olwg ystafell ddosbarth Traciwr Teithio WOW hefyd.

Os nad yw bathodyn wedi’i ddyfarnu’n awtomatig, gallwch ddewis ei ddyfarnu i ddisgyblion eich hun os byddwch yn dymuno gwneud. Gallwch hefyd argraffu rhestr o ddisgyblion sydd wedi ennill bathodyn am y mis – naill ai ar gyfer dosbarth unigol neu ar gyfer pob dosbarth yn yr ysgol – i’w dosbarthu i athrawon neu Lysgenhadon WOW.

## ADNODDAU DIGIDOL

Mae ystod lawn o ganllawiau WOW ac adnoddau ategol ar gael yn:

**livingstreets.org.uk/wowlaunch**





Mentrau wedi’u cymeradwyo gan Modeshift STARS

**Cadwch mewn cysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol:**

**#CERDDEDIRYSGOL** **LIVINGSTREETSUK** **@LIVINGSTREETS**

Mae Living Streets (The Pedestrians’ Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif. 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban), Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (Cymru a Lloegr), Rhif Cofrestru’r Cwmni 5368409.